Brîff 7 Munud – Rheoliadau Hysbysiadau Marwolaeth 2019

1. Fframwaith Cyfreithiol

- Dan adran 3 y Rheoliadau Hysbysiadau Marwolaeth 2019 newydd, mae dyletswydd ar ymarferwyr meddygol cofrestredig yng Nghymru a Lloegr i hysbysu'r uwch grwner perthnasol ynghylch marwolaeth maent yn amau a ddigwyddodd dan yr amgylchiadau a ganlyn:
- Gwenwyno, bwriadol neu ddamweiniol
- Dod i gysylltiad â sylweddau gwenwynig
- Defnyddio cynnyrch meddygol, cyffur a reolir neu sylwedd seicoweithredol
- Trais, trawma neu anaf
- Hunan-niweidio
- Esgeulustod, gan gynnwys hunan-esgeuluso
- Marwolaeth yn sgil triniaeth feddygol neu driniaeth o natur feddygol
- Anaf a gafwyd drwy gyflogaeth yn ystod eu hoes

2. Fframwaith Cyfreithiol

- Mae'r ddyletswydd i hysbysu hefyd yn codi lle mae'r:
- Mae'r ymarferydd meddygol yn amau fod marwolaeth y person yn annaturiol ond nad yw'r perthyn i un o'r categorïau uchod
- Nid yw achos y farwolaeth yn hysbys
- Mae'r person wedi marw yn y ddalfa neu fel arall dan garchariad y wladwriaeth (nid yw hyn yn cynnwys DoLs (LPSs) oni bod fod y person hefyd wedi bod yn y ddalfa)
- Nid oes unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig yn bresennol
- Nid yw'r ymarferydd meddygol presennol ar gael i lofnodi'r dystysgrif feddygol achos marwolaeth o fewn amser rhesymol (pum diwrnod)
- Nid yw hunaniaeth y person yn hysbys, dylid hysbysu'r heddlu am y farwolaeth

3. Y gofyniad hysbysu

- Mae ymarferydd meddygol cofrestredig yn golygu person ar restr y Cyngor Meddygol Cyffredinol o Ymarferwyr Meddygol Cofrestredig, sydd â thrwydded i arfer.
- Rhagwelir yn ymarferol, lle eu bod ar gael, mai un o'r ymarferwyr meddygol presennol sy'n gymwys i gwblhau Tystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth (MCCD) a fydd yn gwneud yr hysbysiad i'r uwch grwner.
- Efallai fod y crwner eisoes wedi cael ei hysbysu am farwolaeth gan berson heb law am ymarferydd meddygol, fel ffrind neu aelod o deulu'r ymadawedig, neu'r heddlu. Nid yw hysbysiadau o'r fath fel arfer yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol dan reoliad 4(3) a (4), ac efallai na fydd yn darparu'r darlun meddygol llawn i'r crwner.
- Gan hynny, hyd yn oed os yw ymarferydd meddygol yn ymwybodol fod rhywun heb law am ymarferydd meddygol wedi rhoi hysbysiad marwolaeth i'r crwner, dylai'r ymarferydd meddygol cofrestredig yn dal i wneud hysbysiad dan y Rheoliadau.

4. Fframwaith Cyfreithiol

- **Gwybodaeth i'w darparu i'r uwch grwner (adran 4)**
- Lle mae'r farwolaeth yn amlwg yn hysbysiad annaturiol, dylid gwneud hysbysiad i'r uwch grwner ar unwaith. Gellir gwneud rhain drwy e-bost, porth gwe neu ddulliau eraill. Gellir darparu hysbysiad ar lafar dan amgylchiadau eithriadol ac mae'n rhaid i'r ymarferydd meddygol unwaith fod hynny'n ymarferol ddarparu hysbysiad ysgrifenedig yn cadarnhau'r wybodaeth

5. Fframwaith Cyfreithiol

- **Gwybodaeth i'w darparu i'r uwch grwner (adran 4)**
- Rhaid i'r ymarferydd meddygol ddarparu enw'r perthynas agosaf a pham yr ystyrir y dylid rhoi hysbysiad o'r farwolaeth gan ddarparu esboniad manwl ar ffurf naratif gyda'u rhif GMC. Efallai na fydd bob angen ymchwiliad ac os felly, bydd y crwner yn rhoi ffurflen 100A ac yn cyfeirio'r achos yn ôl i'r ymarferydd meddygol a fydd yn gallu cyhoeddi tystysgrif feddygol o achos marwolaeth.

6. Cyd-destun

- Hyd nawr nid oedd unrhyw ddyletswydd ar feddygon i roi gwybod i'r crwner am farwolaethau penodol. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd cyfreithiol newydd ar feddygon i roi gwybod i'r crwner am farwolaethau dan amgylchiadau penodol a ddiffinnir. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnig eglurhad i feddygon o ran beth yn union yw eu dyletswyddau statudol.

Rheoliadau Hysbysiadau Marwolaethau 2019

I weld y rheoliadau llawn ewch i:

Rheoliadau Hysbysiadau Marwolaethau 2019